

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

London Women's Clinic Cymru,
Caerdydd

Dyddiad arolygu: 29 Gorffennaf
2019

Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
	Beth nesaf?	25
4.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	28
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o London Women's Clinic Cymru, Caerdydd ar 29 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC, a oedd yn ei arwain, un adolygwr cymheiriaid clinigol ac un o arolygwyr AGIC a oedd yn cyflawni rôl adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod gan London Women's Clinic Cymru, Caerdydd drefniadau ar waith i hybu diogelwch a llesiant y cleifion sy'n ymweld â'r clinig.

Gwnaethom hefyd nodi nifer o feysydd o arfer da yn y clinig, gan gynnwys cael ei achredu'n ganolfan hyfforddi, diwrnodau astudio a ffeiriau ffrwythlondeb.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiadau o ddefnyddio'r clinig
- Roedd deunydd hybu iechyd ar gael yn y clinig
- Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau mewn nifer o ffyrdd
- Sicrhau bod y clinig yn lân ac yn daclus er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio
- Roedd prosesau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol ar gyfer archwilio'r cyfarpar a ddefnyddir
- Nodwyd nifer o feysydd arloesol
- Systemau arwain a rheoli da
- Hyfforddiant ac arfarniadau cyfredol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos canlyniadau ac unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth cleifion
- Yr asesiad galluedd meddyliol yn y clinig.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae London Women's Clinic Cymru, Caerdydd (y clinig) wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth ffrwythlondeb cleifion dydd annibynnol i oedolion yn 15 Plas Winsor, Caerdydd, CF10 3BY. Mae gan London Women's Clinic Cymru dri safle yn Abertawe, Caerdydd a Bryste. Darperir triniaeth yng nghlinig Caerdydd.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 3 Medi 2012.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys:

- Un Uwch-Feddyg Ymgynghorol Ffrwythlondeb ac Unigolyn Cyfrifol
- Pedwar Meddyg Ymgynghorol Ffrwythlondeb, sydd hefyd yn cwmpasu Abertawe a Bryste
- Un Rheolwr Busnes ac Ansawdd, Uwch-Embryolegydd
- Un Uwch-Nyrs a Rheolwr Cofrestredig
- Pedair Nyrs gan gynnwys nyrsys theatr a ffrwythlondeb
- Un Rheolwr Labordy, Uwch-Embryolegydd¹
- Dau Embryolegydd Clinigol
- Dau Unigolyn yn y Dderbynfa
- Dau Swyddog Gweinyddol (un clinig, un labordy).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Casglu, cadw, prosesu, dosbarthu, defnyddio a storio gametau

¹ Ym maes bioleg, mae a wnelo embryoleg ag astudio datblygiad gametau (celloedd rhyw) cyn eu mewnlannu, y broses ffrwythloni, a datblygiad embryonau.

- Creu, casglu, cadw, prosesu, profi, dosbarthu, defnyddio a storio embryonau
- Gosod unrhyw embryonau a ganiateir mewn menyw
- Defnyddio embryonau yn ystod hyfforddiant
- Ymgynghoriadau a gwasanaethau cwnsela
- Sbarduno ofylu
- Monitro cylchredoedd gan gynnwys defnyddio proses uwchsain
- Gwasanaethau fflebotomi

Dim ond yn unol â thrwydded ddilys a roddir gan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA)² y gellir darparu'r gwasanaeth.

Ni all y cleifion aros dros nos.

² <https://www.hfea.gov.uk/>

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiadau o ddefnyddio'r clinig. Gallai cleifion roi adborth am eu profiadau mewn sawl ffordd.

Gwelsom fod deunydd hybu iechyd ar gael yn y clinig.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â dau glaf yn ystod yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol, a nododd y cleifion fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae staff y dderbynfa bob amser yn gwrtais ac yn gyfeillgar. Mae'n hawdd siarad â'r nyrsys a'r meddygon, maent yn barod eu cymwynas, ac mae negeseuon e-bost neu alwadau ffôn yn cael eu hateb yn brydlon. Bob amser yn cymryd yr amser i ateb cwestiynau a phryderon"

"Gwasanaeth rhagorol, ymateb yn gyflym. Bob amser yn barod i helpu. Mae'n hawdd siarad â phob aelod o staff, ac mae pawb yn gyfeillgar ac yn wybodus"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd taflenni am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig ar gael yn rhwydd yn yr ystafell aros. Roedd gan y gwasanaeth wefan hefyd a oedd yn nodi'r gwasanaethau a gynigir.

Yn ogystal, gwelsom enghraifft o becyn gwybodaeth i gleifion a oedd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am eu hopsiynau amrywiol a'r driniaeth a ddewiswyd ganddynt.

Urddas a pharch

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion nodi a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am y staff yn y clinig. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnynt. Gwnaeth y cleifion hefyd ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth.

Yn ystod ein hymweliad, nodwyd bod cleifion yn cyrraedd ac yn cael eu gweld yn gyflym. Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn siarad â nhw mewn ffordd gwrtais. Pe bai unrhyw glaf yn dymuno siarad â'r staff yn breifat, roedd modd defnyddio un o'r ystafelloedd ar y llawr daear.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd parchus a phroffesiynol, a hynny wrth sgwrsio ar y ffôn ac wyneb yn wyneb. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn garedig ac yn dangos parch tuag atynt, a'u bod yn cymryd amser i ddod i adnabod y cleifion. Roeddent yn teimlo bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu.

Gwelsom fod drysau ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Defnyddiwyd llenni preifatrwydd o gwmpas y gwelyau archwilio er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau neu pan oeddent yn cael triniaeth.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion o'u hawl i gael hebryngwr pan fyddent yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd. Defnyddir hebryngwyr er mwyn diogelu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan gaiff y claf ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, roedd y ffurflenni cydsynio uwchsain a oedd yn cael eu defnyddio yn cynnwys adran yn ymwneud â llawfeddyg / meddyg gwrywaidd ("male surgeon / doctor"). Nid yw canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)³ yn cyfeirio mwyach at rywedd yr hebryngwr ac felly dylai'r adran gael ei newid yn briodol. Hefyd, nodwyd nad oedd tystiolaeth o gynnig hebryngwr bob amser yn cael ei chofnodi

³ https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/maintaining-boundaries-intimate-examinations-and-chaperones_pdf-58835231.pdf

yng nghofnodion y cleifion. Argymhellwn y dylid cofnodi hyn bob tro y mae'r claf yn derbyn triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:

- Dangos tystiolaeth o gynnig hebryngwyr yng nghofnodion cleifion bob tro
- Newid y ffurflenni cydsynio uwchsain er mwyn dileu unrhyw gyfeiriadau at rywedd penodol wrth gynnig hebryngwr.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddo am ei driniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol driniaethau oedd ar gael, unrhyw risgiau cysylltiedig a gwybodaeth am y costau dan sylw.

O edrych ar gofnodion y cleifion, gwnaethom nodi eu bod yn cael gwybodaeth dda am eu gofal a oedd yn hawdd ei deall ac yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir fel eu bod yn gallu gwneud y penderfyniad gorau iddyn nhw.

Dywedodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod pwyslais mawr yn cael ei roi ar sicrhau bod cleifion yn cael digon o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Fel y disgrifir uchod, roedd gwybodaeth ysgrifenedig berthnasol ar gael i gleifion yn hawdd yn y clinig. Gwnaethom hefyd edrych ar bolisi Lles y Plentyn⁴ a ddisgrifir ymhellach isod.

Roedd y personau cofrestredig wedi llunio Datganiad o Ddiben a Chanllaw ar wahân i Gleifion yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid

⁴ Ni chaiff menyw unrhyw fath o driniaeth onid ystyrir lles unrhyw blentyn a all gael ei eni o ganlyniad i'r driniaeth (gan gynnwys yr angen i'r plentyn hwnnw gael ei fagu mewn ffordd gefnogol), ac unrhyw blentyn arall y gall yr enedigaeth effeithio arno.

cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ar gael cydsyniad dilys y cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddent yn anhapus â'r gwasanaeth a ddarperir yn y clinig.

Ar y cyfan, roedd gwybodaeth ond yn cael ei darparu yn Saesneg. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'⁵. Roedd gwasanaeth cyfieithu Language Line⁶ ar gael i gleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Gwelsom fod arwyddion darluniadol yn cael eu harddangos er mwyn helpu cleifion i ddod o hyd i lwybr dianc mewn argyfwng pe bai tân.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u nodi'n glir yn y Datganiad o Ddiben.

Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn derbyn cymorth a gwybodaeth amserol. Ymatebwyd yn gyflym i negeseuon e-bost a phan fyddai'r staff clinigol yn addo ffonio rhywun yn ôl, byddai hyn yn digwydd o fewn yr awr fel arfer.

Nododd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth gyrraedd. Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd y cleifion oedd yn y dderbynfa yn ddi-oed.

Mae'r clinig hefyd yn cyflogi dau gwnselydd sydd ar gael i drafod unrhyw faterion a all godi, neu unrhyw deimladau posibl, cyn i'r cleifion gael eu triniaeth, neu ar ôl hynny. Rhaid darparu gwasanaeth o'r fath yn achos rhai triniaethau.

⁵ Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

⁶ Asiantaeth gyfieithu yn y DU yw Language Line sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau dehongli, cyfieithu a lleoli.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Datganiad o Ddiben a'r wybodaeth ar wefan y clinig yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau'r cleifion.

Roedd lle parcio i bobl anabl y tu ôl i'r clinig, ynghyd â mynediad gwastad, da yng nghefn yr eiddo. Roedd modd defnyddio'r grisiau a/neu lifft i gael mynediad i'r llawr cyntaf a'r ail lawr.

Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ofynnol gan y clinig.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gallai'r cleifion wneud sylwadau ar eu profiad o ymweld â'r clinig mewn sawl ffordd. Roedd y rhain yn cynnwys: neges a dolen ym mhob neges e-bost allanol yn gofyn am sylwadau am y gwasanaeth; holiadur gyda'r wybodaeth gychwynnol i gleifion; arolygon drwy negeseuon testun; ac arolygon rheolaidd o'r cleifion. Yn ogystal â hyn, gallai'r cleifion ysgrifennu adolygiadau ar Facebook a Google. Caiff canlyniadau'r arolygon a'r adborth eu trafod yn y cyfarfodydd Adolygu Rheoli Ansawdd a gynhelir bob chwarter.

Hefyd, cawsom wybod am un enghraifft lle nododd tuedd yn yr arolygon fod angen i gynlluniau triniaethau gael eu gwella. Er mwyn dangos i'r holl gleifion bod y clinig yn gwranddo ar eu hadborth ac yn gweithredu arno, rydym yn argymhell y dylai arddangos y canlyniadau neu'r newidiadau a wnaed yn dilyn adborth cleifion yn yr ardaloedd aros.

Yr hyn sydd angen ei wella

Arddangos canlyniadau ac unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn adborth cleifion yn y clinig.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd trefniadau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol ar gyfer archwilio'r cyfarpar a ddefnyddir.

Nodwyd nifer o feysydd arloesol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd mewn cyflwr da. Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus, heb unrhyw beryglon a allai wneud i rywun faglu.

Roedd polisi rheoli risg ysgrifenedig ar waith – yr un polisi sy'n gymwys i bob safle a gaiff ei redeg gan London Women's Clinic. Nodai'r polisi ei fod yn seiliedig ar gyngor cyfredol o wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)⁷ ym mis Gorffennaf 2010. Roedd Aseidiadau Risg yn seiliedig ar ganllaw "5 steps to risk assessment"⁸ HSE. Roedd y gofrestr risg yn cynnwys adrannau ar storio cryogenig (storio ar dymereddau isel iawn), rheoli meddyginiaethau a rheoli heintiau. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff fod aseidiadau amgylcheddol ac aseidiadau o risgiau gweithdrefnol (er mwyn nodi peryglon a risgiau posibl) wedi cael eu cwblhau. Gwelsom gofnodion a oedd yn

⁷ <https://www.hse.gov.uk/>

⁸ <http://www.hse.gov.uk/risk/controlling-risks.htm>

dangos y broses hon ac roedd camau wedi'u nodi i leihau'r risgiau a nodwyd. Roedd risgiau yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rheoli.

Nodwyd bod system ddiogelwch ddigonol ar waith yn y lleoliad, gyda system larymau y tu mewn a system teledu cylch cyfyng y tu allan i'r eiddo, ac yn y cyntedd. Roedd arwydd o faint cymedrol y tu allan i'r eiddo yn nodi'r clinig.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni leisiwyd unrhyw bryderon sylweddol gan y cleifion ynghylch glendid y clinig; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn helpu i lywio'r staff ynghylch atal a rheoli heintiau. Roedd tystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn y clinig. Roedd ardaloedd clinigol yn cael eu glanhau bob dydd ac roedd gwaith glanhau trwyadl yn digwydd unwaith y mis; darparwyd cofnodion ac amserlenni glanhau perthnasol er mwyn dangos tystiolaeth o'r trefniadau hyn. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar y pwnc hwn.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu'r dwylo ar gael; mae'n bwysig golchi dwylo'n effeithiol er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd yr holl declynnau a ddefnyddiwyd yn ystod triniaethau wedi eu prynu wedi'u sterileiddio ac roeddent yn rhai defnydd untro yn unig. Roedd hyn yn hyrwyddo prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol. Gwelsom fod offer miniog (fel nodwyddau) wedi'u rhoi mewn cynwysyddion priodol i'w gwaredu'n ddiogel. Roedd hyn yn helpu i leihau'r risg o anafiadau (staff a chleifion) a chroes-heintio gan offer miniog sydd wedi cael eu defnyddio. Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog meddygol, yn cael ei osod mewn bagiau/cynwysyddion â chod lliw a'i storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu gan gcontractwr gwastraff a oedd yn cael gwared arno'n ddiogel.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y clinig bolisi rheoli meddyginiaethau a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar reoli meddyginiaethau yn y clinig. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel mewn tri lleoliad yn y clinig er mwyn sicrhau bod modd cael gafael arnynt yn hawdd ar bob llawr. Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu cadw'n ddiogel mewn un lleoliad, gyda'r allwedd ar eu cyfer yn cael ei gadw mewn blwch diogel mewn ystafell dan glo (pad cod rhifol). Roedd cyffuriau a reolir yn

cael eu harchwilio gan ddau aelod o staff ar ddechrau'r diwrnod ac ar ddiwedd y rhestr theatr.

Byddai unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol o ran rheoli meddyginiaethau yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol. Rhoddwyd gwybod am adweithiau andwyol i gyffuriau drwy'r system Cerdyn Melyn⁹.

Cadwyd cofnodion o'r meddyginiaethau a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod y cleifion wedi cael eu holi ynghylch unrhyw alergeddau hysbys er mwyn hybu eu diogelwch a'u llesiant cyn i feddyginiaeth gael ei rhagnodi/rhoi fel rhan o'r gofal a'r driniaeth a gânt.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i lywio'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Yn ogystal, fel y disgrifir uchod, roedd hefyd bolisi a oedd yn disgrifio'r camau i'w cymryd er mwyn ystyried yn briodol les unrhyw blentyn a all gael ei eni o ganlyniad i driniaeth, ac unrhyw blentyn arall y gall yr enedigaeth effeithio arno.

Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol i'w swyddi. Roedd yr unigolyn cyfrifol (a'r prif feddyg ymgynghorol) yn chwarae'r rôl arweiniol ym maes diogelu ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am faterion diogelu.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o offer ar gael yn y clinig i gefnogi'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod yr offer hyn yn cael eu profi/calibradu yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ac yn rhoi mesuriadau cywir.

9

<http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur/RhaglenniaGwasanaethauCenedlaethol/372>

Roedd offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf ar gael ac roedd aelod dynodedig o'r staff yn eu gwirio bob dydd. Ymhellach, roedd y staff wedi cael hyfforddiant diweddar ym maes dadebru.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol. Gwelwyd tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol da rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a staff y labordy.

Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddygon ymgynghorol ac yn cynnwys staff meddygol sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ychwanegol sy'n benodol i'r maes gwaith hwn. Roedd nyrsys ffrwythlondeb sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol hefyd, a feddai ar sgiliau ychwanegol ac a allai gyflawni rhai o'r triniaethau clinigol, gan gynnwys sganiau.

Roedd nifer o archwiliadau gwahanol yn cael eu cynnal yn y clinig a drafodwyd yn y cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol. Yn arbennig o nodedig roedd y rhaglen sicrhau ansawdd o archwiliadau parhaus o'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) yn y labordy. Nododd y staff y gwnaethom siarad â nhw, lle'r oedd allanolynnau mewn DPAau, y byddai adolygiad manwl yn cael ei gynnal er mwyn nodi argymhellion a fyddai'n gwella perfformiad. Yna, byddai archwiliad arall o ymarfer yn cael ei gynnal er mwyn dangos gwell cydymffurfiaeth â DPAau. Cawsom wybod am enghraifft benodol o'r llynedd lle cafwyd cyfradd cymhlethdodau uchel mewn perthynas â thriniaeth benodol. Arweiniodd hyn at archwilio mathau o bipedi¹⁰. Roedd y gyfradd uchel hon yn gysylltiedig â math penodol o biped a rhoddwyd y gorau i'w defnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Cawsom wybod am sawl achos o arfer da a chynlluniau datblygu yn y clinig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- EngagedMD, sef rhaglen cydsyniad ar sail gwybodaeth ar-lein a ddefnyddir i addysgu cleifion a sicrhau bod pob ffurflen

¹⁰ Dyfais untro sy'n cynnwys canol plastig a gorchudd fel gwelltyn yfed a ddefnyddir i gynnal biopsi endometriaidd drwy sugno'n ysgafn.

gydsynio a phob ffurflen fewnol yn cael ei chwblhau'n amserol, heb unrhyw anghysondebau

- Diwrnod astudio atgennedlu i feddygon teulu sy'n cynnwys sesiynau ar anffrwythlondeb, gwaith labordy, llwybrau cleifion ac endometriosis¹¹.
- Partneriaeth rhwng AIVF, sef cwmni ymchwil, datblygu a masnacheiddio cynhyrchion meddalwedd a thechnoleg ym maes IVF¹², a LWC i rannu data
- Achrediad fel canolfan hyfforddi ar gyfer rhaglen Darparwyr Hyfforddiant Seiliedig ar Waith ym maes Gwyddor Atgennedlu Ysgol Genedlaethol Gwyddor Gofal Iechyd¹³
- Ffeiriau Ffrwythlondeb, lle gellir holi arbenigwyr ym maes ffrwythlondeb am y broses ffrwythloni, ynghyd ag ymgynghoriadau bach un i un, a seminarau ar driniaeth a ffrwythlondeb.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

System IDEAS (Infertility Database Embryology and Andrology System) a ddefnyddir i reoli cofnodion, sef system cofnodion meddygol electronig ar gyfer endocrinoleg atgennedlu¹⁴. Byddai cofnodion copi caled yn cael eu sganio i'r system ac yna byddai'r copïau gwreiddiol yn cael eu rhwygo, heb gadw unrhyw gopïau papur. Roedd y wybodaeth yn cael ei chadw ar system gwmwl¹⁵. Gallai unrhyw un o safleoedd y clinig gael gafael ar gofnodion cleifion o'i dri safle.

¹¹ Cyflwr lle mae meinwe sy'n debyg i leinin y groth yn dechrau tyfu mewn manau eraill, fel yr ofarïau a'r tiwbiau ffalopaidd, yw endometriosis.

¹² <https://www.nhs.uk/conditions/ivf/>

¹³ <http://www.nshcs.hee.nhs.uk/>

¹⁴ Eifen o feddygaeth sy'n nodi ac yn trin anffrwythlondeb mewn dynion a menywod yw endocrinoleg atgennedlol

¹⁵ Strategaeth i gadw copïau wrth gefn o ddata lle caiff y data eu hanfon dros rwydwaith perchnogol neu gyhoeddus i weinydd oddi ar y safle.

Hefyd, gallai rhai aelodau o staff gael gafael arnynt o'u cartref neu o bencadlys y clinig yn Llundain.

Rheoli cofnodion

Mae cofnodion da yn bwysig er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal cywir. Roedd y sampl o gofnodion a archwiliwyd gennym yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd manylion adnabod wedi cael eu cynnwys ar ffurflenni dau glaf a sganiwyd i'r system ar gyfer cofnodion cleifion. Gallai hyn arwain at sganio cofnod anghywir neu briodoli cofnodion i'r unigolyn anghywir.

Dangosodd y cofnodion meddygol a archwiliwyd fod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi i gleifion am eu cyflwr, ynghyd ag opsiynau archwilio a rheoli. Yn y cofnodion meddygol, dangoswyd bod y wybodaeth hon wedi'i rhoi ar lafar, yn ysgrifenedig ac ar ffurf taflenni gwybodaeth. Roedd yr holl gofnodion cleifion a samplwyd yn cynnwys adran hanes unigol a gwblhawyd ar ddechrau'r ymgynghoriadau.

Roedd y llythyrau ymgynghori a gafodd eu cynnwys yn y cofnodion yn disgrifio'r opsiynau triniaeth oedd ar gael, gan gynnwys buddiannau a risgiau. Nodwyd bod cofnod cyflawn o'r feddyginiaeth a ragnodwyd, ynghyd â ffurflenni cydsynio cleifion a gafodd bigiadau.

Er bod hefyd dystiolaeth o gynnig gwasanaeth cwnsela ar sawl achlysur, nid oedd unrhyw gofnod o'i ddefnydd. Dim ond un o'r pum cofnod cleifion a samplwyd oedd yn cynnwys tystiolaeth o wasanaeth cwnsela.

Nodwyd gennym fod y clinig wedi creu rhestr wirio o'r ffurflenni cydsynio gofynnol ar gyfer pob triniaeth. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y bu archwiliad o'r ffurflenni cydsynio a ddefnyddiwyd a bod y canlyniadau wedi cael eu cyflwyno yn y cyfarfod llywodraethu clinigol a oedd wedi arwain at wella ymarfer. Hefyd, cwblhawyd rhestr wirio cyn unrhyw lawdriniaeth er mwyn sicrhau bod yr holl archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau gan staff y labordy. Roedd y staff nyrsio hefyd yn cwblhau eu rhestr wirio eu hunain.

Mewn perthynas ag asesiadau galluedd meddyliol¹⁶, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod unrhyw bryderon yn cael eu trafod â chydweithwyr yn y cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol. Byddai'r clinig hefyd yn cysylltu â meddyg teulu'r claf wedyn er mwyn gweld a fu unrhyw broblemau iechyd meddwl yn y gorffennol a ph'un a ddefnyddiwyd gwasanaethau seiciatrig / iechyd meddwl. Er bod iechyd meddwl yn gwestiwn ar ffurflen hanes meddygol y claf, nid oedd asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol cyn cael triniaeth ac ni fyddai meddygon teulu yn cael copi o'r ohebiaeth fel mater o drefn. Argymhellwn y dylai asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol gael ei gynnal ac y dylai'r clinig ystyried defnyddio system sy'n debyg i'r ffurflen¹⁷ a ddefnyddir gan GIG Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r clinig gynnal asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol a dylai ystyried defnyddio system sy'n debyg i'r ffurflen a ddefnyddir gan GIG Cymru.

Dylid cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob ffurflen yn cynnwys manylion adnabod y claf cyn iddi gael ei sganio.

¹⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=744>

¹⁷ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/744/Mental%20Capacity%20Assessment%20Form.dot>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn y clinig, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur rheoli yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng y rheolwyr a'r staff yn effeithiol.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

- Roedd llinellau cyfrifoldeb clir o fewn y clinig, ac i brif swyddfa'r clinig yn Llundain. Roedd nifer o swyddogaethau Adnoddau Dynol, megis cofnodion personél a hyfforddiant, yn cael eu cadw yn y brif swyddfa, ond roeddent ar gael i'r clinig ar fyr rybudd.

Roedd Datganiad o Ddiben cyfredol a oedd yn cynnwys gofynion Atodlen 1 i Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011¹⁸. Roedd y datganiad yn cynnwys nodau ac amcanion y clinig, y triniaethau a oedd ar gael a strwythur

¹⁸ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/734/made/welsh>

sefydliadol y clinig. Roedd y Canllaw i Gleifion hefyd wedi cael ei gwblhau yn unol â'r rheoliadau uchod ac roedd yn cynnwys crynodeb o'r Datganiad o Ddiben, telerau ac amodau'r gwasanaethau a oedd ar gael i gleifion a'r weithdrefn gwyno. Gofynnwyd i'r clinig anfon unrhyw newidiadau i'r Datganiad o Ddiben hwn a'r Canllaw i Gleifion i AGIC mewn modd amserol.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod prosesau da, anffurfiol ar waith i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr a'u cydweithwyr yn eu cefnogi yn eu rolau.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig ac wrth law i gefnogi'r staff a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Hefyd, mae aelodau'r prif fwrdd yn Llundain yn mynychu'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol.

Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd rheoli wythnosol, cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol a chyfarfodydd adolygu rheoli ansawdd chwarterol. Roedd y cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac adolygu rheoli ansawdd yn cynnwys staff o'r tri safle, sef Abertawe, Caerdydd a Bryste.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau arwyddocaol a rhannu gwersi o'r rhain er mwyn hybu diogelwch a llesiant cleifion. Roedd digwyddiadau andwyol difrifol, achosion o ddiffyg cydymffurfio ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd¹⁹ o bob safle yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd Adolygu Rheoli Ansawdd ac mewn cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn cael eu defnyddio i drafod cwynion ac achosion heriol. Yn dibynnu ar natur unrhyw ddigwyddiadau ac achosion o ddiffyg cydymffurfio, roedd y brif swyddfa a HFEA hefyd yn cael gwybod amdanynt.

Roedd manylion am y ffordd y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ddiben, ar y wefan ac ar ffurf taflen. Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael hefyd. Roedd y rhain yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn glir. Yn unol â'r rheoliadau: roedd manylion

¹⁹ <https://www.hfea.gov.uk/media/2793/2019-01-03-code-of-practice-9th-edition-v2.pdf>

cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd. Fodd bynnag, nid oedd y polisi cwynion wedi'i arddangos yn glir yn y clinig, er mwyn sicrhau bod pob claf yn ymwybodol o'r polisi. Gwnaethom argymhell y dylid mynd i'r afael â hyn. Gwnaethom edrych ar y gofrestr cwynion a oedd yn cynnwys gwybodaeth lawn am y gŵyn, y camau i'w cymryd a'r canlyniad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r clinig arddangos y polisi cwynion yn glir yn nerbynfa'r clinig.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu rolau a sut roeddent yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y clinig. Roedd gwasanaethau meddygol, ymgynghori a labordy yn cael eu darparu gan y meddygon, y nyrsys a'r technegwyr a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y clinig. Roedd anaesthetegyddion yn cael eu cyflogi fesul sesiwn gan y clinig ac roedd yr unigolyn cyfrifol wedi cadarnhau eu cymwysterau ac edrych ar eu CVs a'u cofnodion GMC cyn rhoi breintiau ymarfer iddynt. Roedd gwiriadau addas wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'u cofrestriad â phriod gyrff proffesiynol yr holl staff.

Ar adeg ein hymweliad, roedd swydd wag am embryolegydd yn y clinig a oedd wedi'i hysbysebu. Gallai'r clinig drefnu ei lefelau staffio a'r rota i fodloni gofynion ymlaen llaw, am ei fod yn ymwybodol o'r triniaethau a'r ymgynghoriadau. Hefyd, roedd theatrau ar waith ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Roedd yr embryolegwyr a'r meddygon ymgynghorol hefyd yn gweithredu ar sail rota ar alwad. Gwelwyd bod digon o staff ar ddyletswydd ar ddiwrnod ein harolygiad.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cofnodion staff yn cael eu cadw'n ganolog yn y brif swyddfa yn Llundain. Gallai'r clinig gael gwybodaeth o Lundain yn ôl y gofyn am faterion personél. Nodwyd hyn yn ystod yr arolygiad pan ofynnwyd am samplau o gofnodion.

Mae'r adran adnoddau dynol yn y brif swyddfa yn hysbysu'r clinig pan fydd angen unrhyw hyfforddiant, arfarniadau neu wiriadau gan y Gwasanaeth

Datgelu a Gwahardd (DBS)²⁰ ar aelodau o staff. Hefyd, yn ddiweddar roedd y clinig wedi cyflwyno proses o benodi hyrwyddwyr staff a fydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyfforddiant a'r arfarniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni mewn modd amserol.

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau staff a arolygwyd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o ran eu perfformiad yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cedwid at arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn unol â rheoliadau a safonau. Dangosodd y cofnodion staff y gwnaethom edrych arnynt fod y clinig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd. Hefyd, gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad DBS fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.

²⁰ <https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service>

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: London Women's Clinic Cymru, Caerdydd

Dyddiad arolygu: 29 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/S afon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<p>Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Dangos tystiolaeth o gynnig hebryngwyr yng nghofnodion cleifion bob troNewid y ffurflenni cydsynio uwchsain er mwyn dileu unrhyw gyfeiriadau at rywedd penodol wrth gynnig hebryngwr.	10. Urddas a pharch	<ol style="list-style-type: none">Anfonwyd neges e-bost at bob aelod o staff yn ei hysbysu i gofnodi cynnig hebryngwr bob tro os cynhelir sgan uwchsain ac unrhyw archwiliad o natur bersonol.Arddangosir hysbysiadau mewn ystafelloedd triniaeth i atgoffa cleifion bod hebryngwyr ar gael.Cynhelir archwiliad ar ddiwedd cyfnod o dri mis i weld a yw'r clinig wedi gwella ei ymarferDiwygiwyd y ffurflen gydsynio uwchsain er	Dr Hemlata Thackare ac Anne Fisher	<ol style="list-style-type: none">29.08.2019Cwblhau'r archwiliad erbyn 01.12.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/S afon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mwyn dileu unrhyw gyfeiriadau at rywedd penodol wrth gynnig hebryngwr		4. 14.09.2019
Arddangos canlyniadau ac unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn adborth cleifion yn y clinig.	5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth	Arddangosir poster yn y clinig	Giles Palmer a S. Day	30.09.2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Dylai'r clinig gynnal asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol a dylai ystyried defnyddio system sy'n debyg i'r ffurflen a ddefnyddir gan GIG Cymru.</p> <p>Dylid cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob ffurflen yn cynnwys manylion adnabod y claf cyn iddi gael ei sganio.</p>	20. Rheoli cofnodion	<p>1. Mae pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn y clinig wedi'i gofrestru â'i gorff proffesiynol ac mae'n ymwybodol o'i ddyletswydd i asesu'r galluedd i gydsynio i driniaeth neu archwiliad. Mae'r clinig bob amser wedi gweithredu ar sail y dybiaeth bod gan bob oedolyn ddigon o alluedd i benderfynu ar ei driniaeth feddygol ei hun, oni fydd tystiolaeth sylweddol sy'n awgrymu fel arall.</p> <p>Mae'r meddygon ymgynghorol sy'n argymhell triniaeth neu archwiliadau ac sydd ynghlwm wrth gynnal y driniaeth bob amser wedi asesu'r galluedd i gydsynio ond, yn y dyfodol, cofnodir hyn yn ffurfiol yng nghofnodion y cleifion. Mae'r</p>	Dr Hemlata Thackare	Cwblhau'r archwiliad erbyn 10.12.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/S afon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>drafodaeth am y driniaeth dan sylw bellach yn cynnwys blwch ticio 'capacity to consent has been assessed'. Anfonwyd neges e-bost at bob aelod o staff i'w hysbysu o'r newid mewn ymarfer a'i gyfeirio at y cofnod trafod triniaeth.</p> <p>Byddwn yn archwilio'r newid mewn ymarfer ar ôl tri mis.</p> <p>O 1 Mai 2019, anfonwyd llythyr at feddyg teulu pob claf newydd yn y clinig yn holi am unrhyw bryderon Diogelu.</p> <p>Nid ydym wedi trin unrhyw glaf heb y galluedd i gydsynio. Byddwn yn defnyddio ffurflen asesu galluedd meddyliol y GIG os bydd achos o'r fath yn codi yn y dyfodol.</p> <p>2. Cynhelir archwiliad ar hap ar ôl tri mis er mwyn gweld a yw pob dogfen a sganiwyd yn cynnwys manylion adnabod y claf. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa am hyn o'r blaen ac unwaith eto drwy neges e-bost</p>		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n ofynnol i'r clinig arddangos y polisi	23 Delio â	Mae'r polisi cwynion bellach i'w weld ar stand yn	Dr Thackare a	31.07.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/S afon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cwynion yn glir yn nerbynfa'r clinig.	phryderon a rheoli digwyddiadau	y dderbynfa	Mr Giles Palmer	

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Dr Hemlata Thackare

Teitl swydd: Gynaecolegydd Ymgynghorol, PR HFEA ac Unigolyn Cyfrifol AGIC

Dyddiad: 09.09.2019